Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Eirin**

**Cartref Gofal Tŷ Eirin**
**Thomastown**
**Tonyrefail**
**Porth**
**CF39 8EE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

## 1 Medi 2022

2/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thŷ Eirin

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Harbour Healthcare SW Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 87 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 12/8/21 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'n ymddangos bod y bobl yn cael gofal da ac yn hapus yng Nghartref Gofal Tŷ Eirin. Mae'r cydlynwyr gweithgareddau yn cynorthwyo'r bobl i lenwi eu diwrnod. Mae'r cynlluniau yn canolbwyntio ar unigolion a chânt eu cwblhau mewn modd amserol ond nid ydynt bob amser yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf na thystiolaeth y darperir gofal yn unol â nhw. Mae angen cryfhau rheolaeth meddyginiaethau er mwyn cynnal arferion da. Mae unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn cael eu hystyried ac mae asesiadau risg ar waith. Mae'r bobl yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Cwblheir adolygiadau fel mater o drefn ond nid ydynt yn dangos tystiolaeth o ymgynghori â'r bobl a'u perthnasau.

Mae ystod o bolisïau ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y gwasanaeth ac mae gwiriadau recriwtio staff yn gadarn. Ar y cyfan, mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli a bod y lefelau staffio yn briodol. Mae'r gwasanaeth yn adrodd am ddigwyddiadau nodedig a phryderon diogelu. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae wedi'i addurno i safon uchel. Mae angen gwella amlder yr hyfforddiant a goruchwyliaeth. Mae'r gwasanaeth yn ystyried anghenion Cymraeg y bobl. Mae angen gwella'r adroddiadau ansawdd gofal chwe-misol er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi llesiant emosiynol y bobl ac yn annog dewis. Mae'r bobl yn cadarnhau bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn ffordd garedig a gofalgar. Mae gweithgareddau a digwyddiadau yn helpu'r bobl i lenwi eu diwrnod mewn ffordd gadarnhaol a chael pethau i edrych ymlaen atynt. Mae'r bobl yn cael cymorth i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, sy'n dweud bod y gwasanaeth yn groesawgar ac yn hawdd mynd ato. Mae cynlluniau personol yn amlinellu arferion a dewisiadau, ac mae'r staff yn deall ac yn dilyn y rhain. Mae'r ardaloedd cymunol wedi'u haddurno'n ddymunol a chaiff y bobl gyfleoedd i roi naws bersonol ar eu hystafelloedd. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod, naill ai ym mhreifatrwydd eu hystafell eu hunain neu'n cymdeithasu ag eraill mewn ardaloedd cymunol. Mae anghenion Cymraeg yn cael eu hystyried ac mae gan y gwasanaeth staff sy'n siarad Cymraeg, hyrwyddwyr Cymraeg enwebedig, ac arwyddion a dogfennaeth ddwyieithog, ac mae'n cynnig grwpiau gweithgareddau Cymraeg i'r bobl.

Ystyrir llesiant corfforol y bobl. Ar y cyfan, canfuom fod cynlluniau personol manwl ac asesiadau risg cyfredol ar waith i gynorthwyo staff i ddeall anghenion unigol. Gwneir atgyfeiriadau amserol at amrywiol weithwyr iechyd proffesiynol. Gwelsom nad yw rhai cofnodion bob amser yn dangos bod gwiriadau dyddiol wedi'u cwblhau yn unol â chynlluniau personol ac felly mae angen eu gwella. Mae rheolaeth gyffredinol meddyginiaeth yn dda; fodd bynnag, mae angen cryfhau rhai meysydd yn ymwneud â'i rhoi. Mae'r lefelau staffio yn sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu mewn modd amserol. Mae'n ymddangos bod bwydlenni'n amrywiol, gan roi ystyriaeth i faethiad da. Cwblheir adolygiadau yn unol â'r rheoliadau ond nid oes tystiolaeth o adborth gan y bobl a'u perthnasau.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff yn ymwybodol o sut i adnabod arwyddion o gamdriniaeth ac yn deall sut i adrodd am bryderon. Mae gwiriadau recriwtio yn sicrhau bod staff yn addas ar gyfer eu rôl a bod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Adroddir am ddigwyddiadau nodedig, ac mae polisïau ar waith i gynnal arferion da. Mae angen gwella amlder yr hyfforddiant a mynediad at oruchwyliaeth. Cwblheir gwiriadau cynnal a chadw fel mater o drefn i sicrhau bod yr amgylchedd cyffredinol yn ddiogel a bod offer yn addas i'w defnyddio. Mae mesurau priodol ar gyfer rheoli heintiau yn sicrhau bod y bobl yn aros mor iach â phosib. Mae gan y gwasanaeth rolau rheoli clir a chynhelir archwiliadau rheolaidd i fonitro arferion. Mae angen cryfhau'r gwaith o gwblhau adroddiadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau.

## Gofal a Chymorth

Mae’r bobl yn cael profiad gofal cadarnhaol. Darperir gofal a chymorth gan staff profiadol sydd â dealltwriaeth dda o’r bobl y maent yn eu cynorthwyo. Mae’r staff yn darparu gofal mewn modd sylwgar ac roedd yr holl ryngweithio a welsom ar ddiwrnod yr arolygiad yn gadarnhaol. Gwelsom fod digon o staff ar waith i sicrhau bod y bobl yn cael cymorth mewn modd amserol. Roedd y bobl y buom yn siarad â nhw yn canmol y cymorth y maent yn ei gael, a gwnaethant ddweud:
*“Maen nhw’n neis yma.”*
*“Maen nhw’n gofalu amdana i yn rhyfeddol o dda” ac “Mae’r staff yn rhagorol.”*
*“Dwi wedi dod o hyd i deulu a chartref yma.”*
*“Maen nhw’n gwybod beth yw hoff bethau a chas bethau’r bobl ac yn mynd allan o’u ffordd i wneud y pethau bach ychwanegol.”*
Roedd perthynas y buom yn siarad â hi yn gadarnhaol iawn am y staff a’r tîm rheoli. Dywedodd ei bod yn cyfathrebu’n dda â’r gwasanaeth, ei bod yn cael ei chroesawu gan y staff wrth ymweld, a’i bod yn cael adborth rheolaidd.

Ar y cyfan, mae rheolaeth meddyginiaeth yn gadarnhaol. Mae stociau meddyginiaeth a chyffuriau a reolir yn cael eu cynnal, eu rheoli’n dda a’u dogfennu’n gywir. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaethau a chanfod yn gyffredinol bod y rhain wedi’u cwblhau’n llawn ac nad oeddent yn cynnwys unrhyw fylchau na gwallau. Fodd bynnag, gwelsom fod meddyginiaeth un unigolyn wedi’i chofnodi’n anghywir fel un a roddwyd, a gwelsom dystiolaeth nad oedd cofnodion eraill wedi’u cadw i gofnodi’r defnydd o elïau yn unol â chynlluniau personol. Gwnaethom gynghori’r gwasanaeth bod hwn yn faes i’w wella a byddwn yn disgwyl i’r darparwr gymryd camau mewn modd amserol.

Mae cynlluniau personol ar waith i amlinellu anghenion gofal a chymorth y bobl. Ar y cyfan, mae cynlluniau’n cynnwys gwybodaeth glir am arferion dyddiol, hoffterau a chefndir y bobl. Mae’r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael cymorth amserol gan weithwyr iechyd proffesiynol allanol pan fo angen. Gwelsom nad oedd un cynllun wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu anghenion cyfredol unigolyn a chanfuwyd nad oedd rhai siartiau dyddiol wedi’u cwblhau gyda’r amlder wedi’i amlinellu o fewn ei gynlluniau personol. Mae adolygiadau rheolaidd yn helpu i nodi unrhyw newidiadau yn anghenion y bobl, ond mae angen mwy o waith i ddangos bod y bobl a’u perthnasau yn rhan o’r broses hon. Gwnaethom gynghori’r gwasanaeth bod y rhain yn feysydd i’w gwella a byddwn yn disgwyl i’r darparwr gymryd camau mewn modd amserol.

Mae gweithgareddau ar gael ac mae’r bwydlenni’n amrywiol. Cyflogir tri chydlynydd gweithgareddau i gynnal ystod o weithgareddau y mae’r bobl i’w gweld yn eu mwynhau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y bore a’r prynhawn. Gwelsom hefyd staff yn trefnu ffair haf lle byddai’r rhai sy’n byw yn y gwasanaeth, yn ogystal â theulu, ffrindiau a phobl yn y gymuned leol, yn bresennol. Cawsom wybod bod y bwydlenni’n cael eu diweddaru’n dymhorol a gwelsom y pryd amser cinio, a oedd i’w weld o safon ddigonol. Roedd yr adborth a gasglwyd gan y bobl sy’n byw yn y gwasanaeth yn gadarnhaol ar y cyfan, gan gynnwys sylwadau megis, *“Alla i ddim rhoi*

*bai ar y bwyd”* ac *“Maen nhw’n rhoi llawer o fwyd i ni.”* Fodd bynnag, teimlai rhai aelodau o staff y siaradwyd â nhw y gellid gwella amrywiaeth ac ansawdd y prydau a ddarperir.

## Yr Amgylchedd

Mae’r gwasanaeth yn cwblhau’r gwiriadau diogelwch priodol. Wrth gyrraedd, gwelsom fod y gwasanaeth yn ddiogel, a bod y gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau mynediad awdurdodedig. Mae cofnodion yn dangos bod y gwasanaeth yn cynnal rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ac atgyweirio. Mae gwiriadau cyfleustodau priodol yn sicrhau bod y bobl yn aros mor ddiogel â phosibl. Mae sylweddau sy’n beryglus i iechyd yn cael eu storio’n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae cofnodion yn dangos bod gwiriadau diogelwch tân a chynlluniau personol gadael mewn argyfwng yn cael eu cwblhau i amlinellu’r cymorth y mae ei angen ar bobl mewn argyfwng. Gwelsom fod ystafelloedd triniaeth wedi’u cloi’n ddiogel er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio’n ddiogel. Mae mesurau priodol ar waith ar gyfer rheoli heintiau ac mae digon o gyfarpar diogelu personol ar gael i’r staff. Mae cofnodion gofal personol y bobl yn cael eu storio’n electronig a dim ond i’r rhai sydd ag awdurdod i’w gweld y maent ar gael. Dywed staff cegin a domestig fod gan y gwasanaeth gyflenwad digonol o ddeunyddiau ac offer i’w galluogi i gyflawni eu rolau.

Mae’r gwasanaeth yn ddymunol ac yn gartrefol. Mae’r gwasanaeth yn ymddangos yn lân, wedi’i gynnal a’i gadw’n dda, ac wedi’i addurno i safon uchel. Mae gan ystafelloedd y bobl naws bersonol yn sgil arddangos ffotograffau ac eitemau personol o gartref. Mae’r gwasanaeth yn cynnig lolfa gymunol a mannau bwyta ar bob llawr o’r adeilad yn ogystal ag ystafell gymunol fawr ar y llawr gwaelod i gymdeithasu a chynnal gweithgareddau grŵp.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Yn gyffredinol, mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac mae gwiriadau recriwtio cadarn ar waith. Mae'r ffeiliau recriwtio a welsom yn cynnwys gwiriadau gofynnol i sicrhau bod staff o gymeriad da a'u bod yn meddu ar y sgiliau a chymwysterau angenrheidiol cyn dechrau eu cyflogaeth. Dywedodd staff newydd eu penodi wrthym eu bod yn cael cyfnod sefydlu cadarnhaol gyda chymorth a chyfleoedd hyfforddi. Mae'r staff yn adrodd bod y rheolwr presennol yn hawdd mynd ato ac yn gefnogol, a bod y timau staff yn cydweithio'n dda. Disgrifiwyd y rheolwr fel rhywun *"cymwynasgar"* ac sy'n hyblyg gyda rotâu.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n wybodus, ond mae angen gwella amlder yr oruchwyliaeth a'r hyfforddiant. Mae trafodaethau gyda'r staff yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiogelu a'u bod yn teimlo y gallant fynd at y rheolwyr gydag unrhyw bryderon. Ar y cyfan, mae gan y staff ddealltwriaeth dda o bolisïau allweddol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n fedrus wrth gyflawni eu dyletswyddau, gan dderbyn goruchwyliaeth a hyfforddiant rheolaidd. Roedd y matrics hyfforddi a welsom yn dangos nad yw'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant craidd, sydd yn hanfodol i sicrhau bod staff yn cynnal arferion diogel. Roedd y matrics goruchwylio a'r cofnodion goruchwylio a welwyd yn amlygu nad yw staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, ac mae'r rhain yn bwysig i gynorthwyo datblygiad staff a mynd i'r afael â materion polisi neu arfer. Codwyd hwn fel maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf. Rydym felly wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae systemau ar waith i gynorthwyo'r gwaith o redeg y cartref. Gwelsom ddetholiad o bolisïau a chanfuwyd eu bod yn gynhwysfawr ac yn addas i'r diben. Mae rotâu staff yn cael eu rheoli'n dda ac, ar ddiwrnod yr arolygiad, canfuom fod digon o staff ar ddyletswydd. Adroddir am ddigwyddiadau nodedig a phryderon diogelu, ac eir i'r afael â chwynion mewn modd amserol. Cynhelir gwiriadau ac archwiliadau rheolaidd i nodi meysydd o arfer da ac i gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella. Nid yw adolygiadau ansawdd gofal bob chwe mis yn cael eu cwblhau yn unol â'r rheoliadau ac mae angen eu gwella. Codwyd hwn fel maes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf. Rydym felly wedi dyroddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth i'r gwasanaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 80 | Ni chaiff yr adroddiad ansawdd gofal ei gwblhau o leiaf bob chwe mis. | Ni chyflawnwyd |
| 36 | Nid yw'r gwasanaeth yn dangos bod staff yn cael hyfforddiant craidd a goruchwyliaeth. | Ni chyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Ni chaiff cofnodion eu cwblhau'n gyson yn unol â chynlluniau personol ac nid yw cynlluniau bob amser yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf. | Newydd |
| 16 | Ni welsom unrhyw dystiolaeth o ymgynghori â'r bobl a'u perthnasau wrth gynnal adolygiadau. | Newydd |
| 58 | Ni chedwir y cofnodion rhoi meddyginiaethau yn gywir bob amser. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 01/11/2022